**Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd Wroleg Macmillan**

**………………………………………………**

---

## Beth yw rôl Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Macmillan?

Rhoi gwybodaeth i gleifion â chanser wrolegol (**yr arennau, y bledren, pidynnol, ceilliol a'r brostad**) ac i berthnasau a gofalwyr.
Rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol yn ystod cyfnod y diagnosis a'r driniaeth.

Gweithio gyda chi i nodi'n weithredol unrhyw bryderon.

Cyfeirio at wasanaethau a helpu gyda newidiadau i'ch ffordd o fyw, megis diet a gweithgarwch corfforol.

Gweithredu fel pwynt cyswllt yn ysbyty Brenhinol Gwent ac ysbyty Nevill Hall.

Gweithredu fel cyswllt rhwng y gymuned a'r ysbyty a hefyd cyswllt rhwng yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhan o'r gofal yn yr ysbyty.

**Nid nyrs yw'r gweithiwr cymorth ond rhywun sydd wedi'i hyfforddi i gefnogi pobl sydd â chanser.**

## Sut mae cael Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Macmillan?

Gall unrhyw un sydd wedi cael diagnosis o ganser wrolegol (**yr arennau, y bledren, pidynnol, ceilliol a'r brostad**) o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gael ei atgyfeirio at y gweithiwr cymorth. Bydd aelod o'r tîm clinigol yn gwneud yr atgyfeiriad i chi.

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, bydd y gweithiwr cymorth yn cysylltu â chi dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y clinig cyn gynted â phosibl.

Gellir cael cymorth un tro'n unig neu'n barhaol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

**Beth yw asesiad anghenion cyfannol (AAC)?**

**Cewch eich atgyfeirio at y gweithiwr cymorth i gwblhau AAC pan fo'n gyfleus i chi**

Mae AAC yn holiadur syml i gael ei gwblhau gennych chi. Mae'n eich galluogi i dynnu sylw at y materion sy bwysicaf i chi ar adeg eich diagnosis a thrwy gyfnod y driniaeth. Defnyddir y wybodaeth hon i greu cynllun gofal a chymorth unigol y gellir ei rannu gyda'ch tîm medial.

Mae pryderon yn yr AAC yn cynnwys:

- Cymorth ymarferol, e.e. arian, gwaith neu dasgau'r cartref
- Teulu a pherthnasoedd
- Sut rydych yn teimlo
- Cymorth ysbrydol/crefyddol
- Ffyrdd iach o fyw megis dilyn diet iach, stopio ysmygu neu yfed llai o alcohol.
- Dychwelyd i weithgareddau arferol, megis gwaith, hobïau neu astudio

Gallwch rannu gyda'r gweithiwr cymorth gymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag sydd ei hangen yn eich barn chi. Gyda'ch gilydd, byddwch yn cytuno ar gynllun i'ch cefnogi chi. Gallai eich anghenion newid wrth i chi fynd o gael diagnosis i gael triniaeth ac ar ôl hynny; gellir ailadrodd asesiad anghenion cyfannol ar unrhyw adeg.

**Sut mae cysylltu â Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Macmillan?**

Mae'r gweithiwr cymorth ar gael:-
**O 9:00am tan 3:00pm o dydd Llun i ddydd Gwener.**

**Ffôn Uniongyrchol:** 01633 238 719 (Mae peiriant ateb ar gael)

**E-bost:** gemma.wham@wales.nhs.uk

**Cyfeiriad:** Adran Wroleg, Lefel 2, Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd. Gwent. NP20 2UB.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**